# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd DK Edwards** **Ward:Dwyrain Maesteg**

## Plaid: Annibynnol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Dwyrain Maesteg ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 77 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Rwy'n aelod etholedig o Gyngor Tref Maesteg ac rwy'n eistedd ar bwyllgorau amrywiol. Mae fy ngwaith ar Gyngor Tref Maesteg yn cynnwys cyfranogiad gweithredol ym mhob menter a digwyddiad a arweinir gan y cyngor gan gynnwys trefnu'r goleuadau Nadolig, marsialu'r orymdaith ac ymgysylltu â'r heddlu i reoli'r dorf yn effeithiol. Rwy'n cymryd rhan weithredol wrth drefnu agweddau amrywiol ar ŵyl yr haf ac yn gweithio gyda masnachwyr y farchnad, gan helpu i sefydlu a threfnu digwyddiadau a gynhelir yn sgwâr y farchnad.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Yn fy ward rwy'n gadeirydd y corff llywodraethu yn Ysgol Gyfun Maesteg ac Ysgol Gynradd Garth, ac yn y rôl hon rwy'n eistedd ar bwyllgorau amrywiol sy'n cynnwys

- Cyllid
- Staffio
- Disgyblu disgyblion
- Iechyd a diogelwch
- Penodiadau
- Amddiffyn plant
- Anghenion addysgol arbennig

Rwy'n ymrwymedig i addysg ein plant a sicrhau bod ganddynt y cyfleusterau i ddatblygu yn unigolion addysgedig a chytbwys. Rwy'n cefnogi'r banc bwyd ym Maesteg ac yn helpu gyda'r gwaith o lwytho a dadlwytho danfoniadau yn ôl y galw.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Yn dilyn y llifogydd trychinebus yng Ngarth ym mis Tachwedd 2016 rwyf wedi gweithio gyda swyddogion CBSP a Chymoedd i'r Arfordir er mwyn sicrhau bod y ddau gwlfert dan sylw bellach yn rhan o system monitro llifogydd a fydd yn rhoi rhybudd cynharach o lefelau dŵr uchel gan alluogi ymateb mwy rhagweithiol.

**Y Cynghorydd DK Edwards** **Dyddiad: 2/06/18**